

RHYDDID I LEFARU - COD YMARFER

Adran	Bwrdd Llywodraethwyr		
Awdur	Cydlynnydd Atal / Clerc y Bwrdd		
Awdurdodwyd gan:	Bwrdd Llywodraethwyr		
Gweithredir gan:	Llywodraethwyr, staff, myfyrwyr, cynadleddau a digwyddiadau, VMS		
Cyfeirnod:	COPVCEX1920046		
Yn disodli:	COPVCEX1516023		
Fersiwn rhif:	2	Pwyllgor Cymeradwyo:	Bwrdd yr Is-ganghellor Pwyllgor Adnoddau Dynol Bwrdd Llywodraethwyr
Dyddiad cymeradwyo:	17/7/20	Cofnod rhif:	19.47 19.105.02
Statws:	Ymeradwyo	Dyddiad gweithredu:	Mehefin 2020
Cyfnod cymeradwyo:	3 blynedd	Dyddiad adolygu:	Mehefin 2023

1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i gynnal egwyddorion rhyddid i lefaru a rhyddid mynegiant yn unol â'r gyfraith; ac i sicrhau fod gan staff a myfyrwyr y rhyddid i ymholi mewn addysg a gwaith ymchwil, i herio doethineb a gyflwynir a chyflwyno syniadau a barn heb roi eu hunain mewn perygl o golli eu swyddi neu eu breintiau.
- 1.2. Mae diwylliant o drafodaeth rydd ac agored yn hanfodol ond gellir cyflawni hyn yn unig os yw pawb yn ymddwyn yn oddefol ac yn osgoi iaith neu weithredoedd tramgwyddus neu ymfflamychol. Bydd adegau pan fydd rhai barnau a safbwyntiau a fynegir yn gyfreithlon yn cael eu hystyried fel rhai sy'n achosi tramgwydd gan eraill. Dan amgylchiadau o'r fath cred y Brifysgol mai ei rôl yw darparu cyfleoedd i herio'r barnau a'r safbwyntiau hynny, i ehangu yn hytrach na chulhau'r drafodaeth, ond hefyd i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath wneud hynny gyda pharch, hyrwyddo cysylltiadau da a chynnal diogelwch staff, myfyrwyr ac ymwelwyr â'r Brifysgol.
- 1.3. Gellir cyfyngu rhyddid i lefaru gan y gyfraith, os yw'n angenrheidiol, er enghraifft, i atal troseddu, rhesymau diogeledd gwladol neu ddiogelwch y cyhoedd neu i atal gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon. Bydd y Brifysgol yn ystyried deddfwriaeth o'r fath wrth gymhwysu'r Cod hwn.
- 1.4. Mae gan y Bwrdd Llywodraethwyr ddyletswydd dan Adran 43(3) Deddf Addysg Rhif 2 1986 i gyhoeddi a diweddarau Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru. Bydd y Bwrdd yn derbyn adroddiad gan Fwrdd yr Is-ganghellor ynghylch gweithredu'r Cod, ynghyd ag unrhyw argymhellion i'w adolygu ar gyfnodau heb fod yn fwy na thair blynedd.

2. SGÔP

Wrth geisio hwyluso yn hytrach na chyfyngu ar ryddid i lefaru, bydd ymrwymiadau a hawliau'r Cod hwn yn berthnasol i'r isod:

- 2.1 holl lywodraethwyr, staff a myfyrwyr y Brifysgol; yn cynnwys os ydyn nhw'n cyflwyno araith mewn digwyddiad gan sefydliad arall a allai gael goblygiadau o ran enw da Prifysgol Glyndŵr;
- 2.2 siaradwyr gwadd neu siaradwyr sy'n ymweld ar wahoddiad gan y Brifysgol neu'r Undeb Myfyrwyr;
- 2.3 unrhyw gyn-fyfyrwyr a wahoddir gan y Brifysgol;
- 2.4 yr holl ddigwyddiadau a arweinir, a gynhelir neu a gynhelir ar y cyd gan y Brifysgol, waeth lle y'u cynhelir (oni bai y byddai cydymffurfio gyda'r Cod hwn yn torri cyfraith y wlad lle bo'r digwyddiad i'w gynnal) neu p'un ai y cynhelir y digwyddiad ar-lein/trwy fideo gynadledda;
- 2.5 yr holl eiddo sy'n eiddo i, dan reolaeth, wedi'i brydlesu gan, ei drwyddedu gan neu ei feddiannu fel arall gan y Brifysgol;
- 2.6 yr holl ddigwyddiadau eraill a gynhelir ar safleoedd y Brifysgol, yn cynnwys y rhai a drefnir gan unigolion neu sefydliadau allanol;
- 2.7 yr Undeb Myfyrwyr a'i glybiau cymdeithasol, cyflogeion a swyddogion sabothol;
- 2.8 mae unrhyw faterion sy'n ymwneud â digwyddiadau a drefnwyd gan neu ar ran yr Undeb Myfyrwyr neu mewn safle a reolir gan yr Undeb Myfyrwyr yn ddarostyngedig i'r Cod Ymarfer hwn a bydd yn cael ei ystyried gan yr Undeb Myfyrwyr yn gyntaf, ac yna gallai gael ei gyfeirio at Swyddog Awdurdodi'r Brifysgol.

3 DEDDFWRIAETH BERTHNASOL

- 3.1 Adran 43 Deddf Addysg (Rhif 2) 1986 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol "*gymryd camau sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau fod rhyddid i lefaru yn unol â'r gyfraith yn cael ei sicrhau i'w holl aelodau, myfyrwyr a chyflogieon y sefydliad ac i siaradwyr sy'n ymweld*" a chyhoeddi 'Cod Ymarfer' i hwyluso cyflawni'r gofyniad hwn. Yn unol ag adran 43 (8) Deddf Addysg (Rhif 2) 1986 bydd unrhyw gyfeiriad at safle'r Brifysgol yn cynnwys adeiladau sy'n cael eu meddiannu gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Glyndŵr Wrecsam.
- 3.2 Adran 202(2) (a) Deddf Diwygio Addysg 1988 sy'n ei gwneud yn ofynnol i brifysgolion ystyried yr angen i sicrhau rhyddid academaidd.
- 3.3 Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a gyflwynwyd i gyfraith gwladol trwy Ddeddf Hawliau Dynol 1998, yn benodol:
 - 3.3.1 Erthygl 9 – sy'n darparu ar gyfer yr hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd i bawb;
 - 3.3.2 Erthygl 10 – sy'n darparu ar gyfer yr hawl i ryddid i lefaru, dal barn a derbyn a rhannu gwybodaeth a syniadau heb ymyrraeth gan awdurdod cyhoeddus ac sy'n medru ymestyn i'r hawl i ddweud pethau a allai roi sioc neu gynhyrfu'r gwrandawr;
 - 3.3.3 Erthygl 11 – sy'n darparu ar gyfer yr hawl i ryddid i ymgynnull a chymdeithasu gydag eraill, yn cynnwys yr hawl i brotestio heddychlon.
- 3.4 Adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n creu dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus sy'n harmoneiddio'r dyletswyddau cydraddoldeb ar draws y nodweddion gwarchoddedig (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol) i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth a meithrin perthnasoedd da.
- 3.5 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 sy'n rhoi dyletswydd ar y Brifysgol i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, iechyd a diogelwch a lles ei gyflogeion ac nad yw ei

weithgareddau'n golygu bod pobl yn wynebu risgiau iechyd a diogelwch.

- 3.6 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 sy'n cynnwys nifer o droseddau yn gysylltiedig gydag anhrefn treisgar, iaith neu weithredoedd sy'n achosi aflonyddu, braw neu drallod neu fygwth bod yn dreisgar, yn cynnwys defnyddio iaith neu ymddygiad gamdriniol, bygythiol neu ddifriol.
- 3.7 Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 sy'n rhoi dyletswydd ar brifysgolion i roi sylw dyledus i'r angen i atal unigolion penodol rhag cael eu denu i derfysgaeth (y 'dyletswydd Atal') (adran 26). Mae'n rhaid i'r Brifysgol hefyd ystyried yn benodol 'y dyletswydd i sicrhau rhyddid i lefaru' a 'phwysigrwydd rhyddid academiaidd' (adran 31).
- 3.8 Deddf Elusennau – fel elusen gofrestredig (Rhif Elusen 1142048) mae annog rhyddid i lefaru yn elfen bwysig wrth hybu dibenion elusennol y Brifysgol yn unol â'r gyfraith ac er budd y cyhoedd. Mae'n rhaid i Lywodraethwyr reoli asedau'r Brifysgol mewn modd cyfrifol, sy'n cynnwys ei henw da.
- 3.9 Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 – sy'n darparu rôl i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) sicrhau fod polisiau a gweithdrefnau'r Brifysgol o ran rhyddid i lefaru a'r dyletswydd Atal yn sicrhau cydbwysedd priodol.

4. DIFFINIADAU

- 4.1. **Swyddog Awdurdodi** – mae'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi penodi'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau neu swydd gyfatebol ddilynol fel Swyddog Awdurdodi'r Brifysgol yng nghyswllt y Cod hwn. Fodd bynnag, gall y Swyddog Awdurdodi ddirprwyo'r awdurdod hwn yn llwyr neu'n rhannol i gyflogeion eraill y Brifysgol.
- 4.2. **Trefnydd** – yn y Cod hwn mae'r term hwn yn dynodi'r unigolyn neu'n unigolion sy'n gyfrifol am Ddigwyddiad Hysbysadwy un ai wedi'i drefnu ganddyn nhw eu hunain neu eraill ar gyfer un ai ddigwyddiad mewnol neu un lle mae sefydliad allanol wedi llogi cyfleusterau'r brifysgol, y mae'n rhaid iddo sicrhau fod y trefniadau'n unol â'r Cod Ymarfer hwn.
- 4.3. **Digwyddiad hysbysadwy** – gall cyfarfod neu ddigwyddiad gael ei ystyried yn Ddigwyddiad Hysbysadwy os yw'r trefnydd yn ateb yn gadarnhaol i un neu fwy o'r cwestiynau yn adran 5, ar ôl arfer diwydrwydd dyladwy priodol.
- 4.4. **Siaradwr** – unrhyw a wahoddir i gyflwyno darlith, araith neu bregeth, neu gymryd rhan mewn trafodaeth panel. Mae hefyd yn cynnwys recordio neu ddarlledu clyweledol siaradwr, neu ddangos ffilm wedi'i dylunio i hyrwyddo safbwynt penodol.
- 4.5. **Siaradwr allanol** – unrhyw un nad yw'n fyfyrwr neu'n aelod o staff y Brifysgol neu sy'n aelod staff y Brifysgol a wahoddir i siarad mewn digwyddiad nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig gyda'u swydd. Yn arferol nid yw'n unigolyn a wahoddir i gymryd rhan mewn addysgu'r cwrciwlwm arferol mewn Cyfadran, hyfforddiant neu ddarparu cyngor mewn adran gwasanaethau proffesiynol.

5. DIGWYDDIADAU HYSBYSADWY

- 5.1 Gall cyfarfod neu ddigwyddiad gael ei ystyried yn Ddigwyddiad Hysbysadwy os, yn dilyn cynnal diwydrwydd dyladwy priodol, mae'r trefnydd yn ateb yn gadarnhaol i un neu ragor o'r cwestiynau isod.
 - a) A yw'r Trefnydd yn ymwybodol o unrhyw agwedd ddadleuol yn gysylltiedig gyda'r siaradwr/wyr neu eu barn neu sy'n codi pryderon ynghylch unrhyw fater arall a gwmpasir gan y Cod Ymarfer hwn?
 - b) A oes tebygolrwydd na fydd y siaradwr/wyr yn medru mynd i mewn i neu adael y cyfarfod neu ddigwyddiad yn ddiogel a/neu y bydd trefniadau diogeledol penodol yn ofynnol?
 - c) A yw'r Trefnydd yn ymwybodol o unrhyw fygythiadau i darfu ar y cyfarfod neu'r

digwyddiad arfaethedig, a allai ddigwydd un ai y tu mewn neu'r tu allan i'r lleoliad?

- d) A yw'r Trefnydd yn ymwybodol o unrhyw gyfarfodydd neu ddigwyddiadau arfaethedig eraill o natur sy'n gwrthdaro, unrhyw faterion ymarferol sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch a/neu effaith ar argaeledd adnoddau?
 - e) A yw'r Trefnydd yn ymwybodol o unrhyw fygythiadau i allu'r Brifysgol i sicrhau rhyddid i lefaru yn unol â'r gyfraith i'r siaradwr/wyr a'r rhai sy'n bresennol yn y cyfarfod/digwyddiad?
 - f) A yw'r Trefnydd yn ymwybodol o unrhyw fygythiadau i allu'r Brifysgol i sicrhau fod siaradwyr â barnau eithafol a allai ddenu pobl i derfysgaeth yn cael eu herio fel rhan o'r un digwyddiad, yn unol â'r dyletswydd Atal.
- 5.2 Os yw'r Trefnydd neu unrhyw un sy'n ymwneud â threfnu'r cyfarfod neu'r digwyddiad neu'r rhannu gwahoddiadau mewn unrhyw amheuaeth a ddylai'r cyfarfod gael ei gyfrif fel Digwyddiad Hysbysadwy yna dylent ymgynghori gyda'r Swyddog Awdurdodi o leiaf 21 diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod neu'r digwyddiad.
- 5.3 Mae'n bosibl y bydd cyfarfod neu ddigwyddiad yn dod yn un hysbysadwy yn ddiweddarach oherwydd newid mewn amgylchiadau, fel cyfarfodydd neu ddigwyddiadau arfaethedig eraill o natur sy'n gwrthdaro, materion ymarferol yn ymwneud ag iechyd a diogelwch neu argaeledd adnoddau.
- 5.4 Cyfrifoldeb y Trefnydd yw sicrhau rhoi digon o rybudd, o leiaf 21 diwrnod, i'r Swyddog Awdurdodi o ran unrhyw Ddigwyddiad Hysbysadwy y mae'n ofynnol ei awdurdodi. Mae hyn er mwyn darparu amser i ystyried y Digwyddiad Hysbysadwy arfaethedig yn unol â'r gweithdrefnau a nodir yn Atodiad 1.
- 5.5 Ni fydd y Brifysgol yn caniatáu i unrhyw Ddigwyddiadau Hysbysadwy fwrw ymlaen lle na roddwyd rhybudd ymlaen llaw digonol a chyfle i ystyried y digwyddiad yn ddyledus gan y Trefnydd.
- 5.6 Ni ddylid hyrwyddo Digwyddiadau Hysbysadwy nes eu bod wedi cael awdurdod i'w cynnal.

6 TORRI'R COD

- 6.1 Bydd torri darpariaethau'r Cod yn arwain at weithredu disgyblu dan weithdrefn berthnasol y Brifysgol. Mae torri'r Cod yn cynnwys rhagfarnu rhyddid i lefaru, yn fwriadol neu'n ddifeddwl, gweithredu mewn modd sy'n tarfu neu'n fygythiol at ddibenion atal siaradwr rhag cael ei glywed, neu atal trafod neu gynnal unrhyw fusnes arall y cynhaliwyd y cyfarfod ar ei gyfer. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo neu annog unigolion eraill mewn gweithredoedd o'r fath a gallai hefyd gynnwys torri darpariaethau Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru sefydliad arall os gellir profi fod goblygiadau enw da i Brifysgol Glyndŵr.
- 6.2 Gellir gweithredu'n gyfreithiol yn erbyn siaradwyr allanol neu grwpiau sydd wedi bwcio i ddefnyddio safle'r Brifysgol ar gyfer cyfarfodydd neu ddigwyddiadau ac sy'n torri'r Cod hwn.
- 6.3 Os yw unrhyw weithred gan unigolion dan y Cod hwn yn cynnwys trosedd(au) honedig a allai gynrychioli torri'r gyfraith, bydd ymrwymiad ar y Brifysgol i gynorthwyo'r Heddlu mewn unrhyw achos troseddol dilynol.

7 CYFEIRIADAU

Polisi Atal a Chynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol.

8 STRATEGAETH GYFATHREBU


Bydd y Cod hwn ar gael ar wefan y Brifysgol i'r holl staff a myfyrwyr a thynnir sylw pobl allweddol â chyfrifoldebau penodol yn y Cod ato. Bydd y Cod hefyd yn cael ei ddwyn i sylw trefnwyr digwyddiadau/cyfarfodydd allanol ar adeg eu bwcio.

9 DIOGELU DATA

Dylid cadw cofnod o'r Cod hwn at ddibenion rheoleiddio a monitro. Er mwyn sicrhau cydymffurfio gyda Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) 2016 cedwir gwybodaeth bersonol gan y Brifysgol am gyfnod o flwyddyn ar ôl cynnal y digwyddiad. Bydd y Brifysgol yn cadw cofnod o deitl y digwyddiad, enw'r siaradwr, dyddiad y digwyddiad a phenderfyniad cymeradwyo am gyfnod o chwe mlynedd ar ôl bwcio, at ddibenion gweinyddol a chydymffurfio.

10 CYFRIFOLDEB AM FONITRO AC ADOLYGU

Bwrdd yr Is-ganghellor sy'n gyfrifol am fonitro effeithiolrwydd y Cod hwn, er bod ei gymhwyso'n ymarferol wedi'i ddirprwyo i'r swyddi a enwir yn y ddogfen hon. Bydd Bwrdd yr Is-ganghellor yn cael ei gynghori am unrhyw gyfarfodydd neu ddigwyddiadau hysbysadwy, yn derbyn diweddariadau rheolaidd ynghylch perfformiad y Cod hwn gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau ac yn cynnal adolygiad rheolaidd y Cod fel rhan o gylch busnes y Bwrdd.



GWEITHDREFN AWDURDODI DIGWYDDIAD HYSBYSADWY

1. Os bwriedir cynnal **Digwyddiad Hysbysadwy** fel y diffinnir yn Adran 5 y Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru ar safle'r Brifysgol, mae'n rhaid i'r Trefnydd lunio asesiad risg (gweler Atodiad 3) ac os penderfynir ei fod yn ddigwyddiad risg canolig neu uchel rhaid iddo gyflwyno'r Ffurflen Digwyddiad Hysbysadwy (gweler Atodiad 4) yn ysgrifenedig i'r Swyddog Awdurdodi o leiaf 21 diwrnod ymlaen llaw.
2. Yn arferol bydd y Swyddog Awdurdodi, yn dilyn derbyn Ffurflen Digwyddiad Hysbysadwy gan y Trefnydd, yn penderfynu cyn pen pum diwrnod gwaith un ai:
 - a. Y caiff y Digwyddiad Hysbysadwy fwrw ymlaen heb unrhyw gyfarwyddiadau pellach ynghylch sut i'w gynnal, a chadarnhau'r penderfyniad hwn yn ysgrifenedig i'r Trefnydd;
 - b. Y caiff y Digwyddiad Hysbysadwy fwrw ymlaen, yn ddarostyngedig i gyfarwyddiadau ynghylch 10 i 14 a chadarnhau hyn yn ysgrifenedig i'r Trefnydd; neu
 - c. Gallai olygu torri Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru'r Brifysgol, felly ni chaniateir cynnal y Digwyddiad Hysbysadwy, a bydd hyn yn cael ei gadarnhau'r ysgrifenedig i'r Trefnydd, yn cynnwys y rhesymau am y penderfyniad.

YR HAWL I APELIO YN ERBYN PENDERFYNIAD Y SWYDDOG AWDURDODI

3. Os nad yw'r Trefnydd yn cytuno gyda phenderfyniad y Swyddog Awdurdodi ynghylch y Digwyddiad Hysbysadwy, gall wneud cais am apêl. Dylid cyflwyno cais o'r fath cyn pen pum diwrnod ar ôl derbyn penderfyniad y Swyddog Awdurdodi.
4. Yn arferol gwrandewir ar yr Apêl cyn pen pum diwrnod gwaith yn dilyn derbyn y cais.
5. Bydd panel Apêl yn cael ei ffurfio gan yr Is-ganghellor neu ei enwebai, ac yn cynnwys tri aelod o Fwrdd yr Is-ganghellor a Llywydd yr Undeb Myfyrwyr. Wrth lunio Panel Apêl rhaid talu sylw dyledus i'w gydbwysedd rhywedd a'r angen am aelodau ag amrywiaeth o bersbectifau.
6. Bydd y panel Apêl yn ystyried manylion y Digwyddiad Hysbysadwy a gall benderfynu y caiff y Digwyddiad Hysbysadwy ei gynnal yn unol ag un ai 2a neu 2b uchod. Fodd bynnag, os yw wedi'i fodloni na ellir cymryd unrhyw gamau rhesymol ymarferol i sicrhau na fydd Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru'r Brifysgol neu'r gyfraith yn cael ei dorri, gall benderfynu na chaiff y Digwyddiad Hysbysadwy gael ei arwain, ei gynnal neu ei gynnal ar y cyd gan y Brifysgol, na chael ei gynnal ar safle'r brifysgol.
7. Os yw'r Panel Apêl yn penderfynu na chaiff y Digwyddiad Hysbysadwy fwrw ymlaen bydd y Swyddog Awdurdodi'n hysbysu'r Trefnydd yn ysgrifenedig, yn cynnwys y rhesymau am y penderfyniad.
8. Os yw'r Panel Apêl yn penderfynu y caiff y Digwyddiad Hysbysadwy fwrw ymlaen bydd y Swyddog Awdurdodi'n hysbysu'r Trefnydd yn ysgrifenedig. Gallai'r Panel Apêl orfodi gofynion fel y caniateir ym mharagraffau 10 i 14 a bydd y Swyddog Awdurdodi yn hysbysu'r Trefnydd yn ysgrifenedig ynghylch y gofynion.
9. Bydd penderfyniad y Panel Apêl yn derfynol ac adroddir amdano yng nghyfarfod nesaf Bwrdd yr Is-ganghellor.

GOFYNION Y GELLID EU CYFLWYNO

10. Fel rhan o'u hystyriaethau, mae gan y Swyddog Awdurdodi a'r Panel Apêl y grym i amrywio ar unrhyw gam unrhyw un o'u gofynion yn sgîl cael rhagor o wybodaeth am y Digwyddiad Hysbysadwy arfaethedig.
11. Lle bo'r Swyddog Awdurdodi'n penderfynu'n ddechreuol, neu'r Panel Apêl yn penderfynu'n ddilynol, y caiff y Digwyddiad Hysbysadwy arfaethedig fwrw ymlaen yn ddarostyngedig i gyfarwyddiadau ynghylch cynnal y digwyddiad a'i leoliad, gallant roi cyfarwyddiadau i'r Trefnydd o ran y modd:
 - a. y bydd mynediad i'r Digwyddiad Hysbysadwy'n cael ei reoli'n briodol, yn cynnwys, er enghraifft, gofyniad bod angen dangos bathodynau adnabod neu docynnau mynediad;
 - b. y bydd cynnal y Digwyddiad Hysbysadwy'n cael ei reoli'n briodol, yn cynnwys, er enghraifft, dull cynnal unrhyw drafodaeth, neu natur cynllun gosod y seddi neu'r trefniadau stiwardio/diogeled.
12. Yn ychwanegol at y gofynion a nodir uchod, mae gan y Swyddog Awdurdodi neu'r Panel Apêl y disgrisiwn i gyflwyno amodau pellach i alluogi cynnal y Digwyddiad Hysbysadwy, os yw'n briodol, yn dilyn ymgynghori gyda'r heddlu. Gallai amodau o'r fath gynnwys:
 - a. canfod lleoliad mwy addas ar gyfer y Digwyddiad Hysbysadwy;
 - b. cyhoeddi bod y Digwyddiad Hysbysadwy yn un cyhoeddus (a fyddai'n caniatáu presenoldeb yr heddlu);
 - c. trefnu i staff y Brifysgol fod yn gyfrifol am yr holl drefniadau diogeledd sy'n gysylltiedig â'r Digwyddiad Hysbysadwy;
 - d. penodi aelod o staff fel 'Swyddog Rheoli' y Digwyddiad Hysbysadwy;
 - e. nodi fod rhaid i'r cyfryngau gofrestru ymlaen llaw er mwyn bod yn bresennol yn y lleoliad lle cynhelir y Digwyddiad Hysbysadwy;
 - f. gofyn i weld unrhyw ddeunyddiau hyrwyddo'r Digwyddiad Hysbysadwy, yn cynnwys unrhyw ddeunyddiau i'w rhannu yn y Digwyddiad Hysbysadwy.
13. Yn arferol bydd costau unrhyw fesurau sy'n ofynnol gan y Swyddog Awdurdodi neu'r Panel Apêl yn gyfrifoldeb Trefnydd y Digwyddiad Hysbysadwy.
14. Os yw'r Swyddog Awdurdodi neu'r Swyddog Rheoli yn credu, yn ystod y Digwyddiad Hysbysadwy:
 - a. y bydd unigolyn yn cael ei anafu os yw'r Digwyddiad Hysbysadwy'n parhau, neu
 - b. y bydd difrod i eiddo'n digwydd os yw'r Digwyddiad Hysbysadwy'n parhau, neu
 - c. y bydd torri'r gyfraith yn digwydd;

bydd yn gohirio neu'n terfynu'r Digwyddiad Hysbysadwy.

LEFEL RISG	DISGRIFIAD
ISEL IAWN	<p>Mae'r siaradwr yn arbenigwr adnabyddus yn ei faes ac nid yw'n adnabyddus am fod yn ddadleuol neu'n dal unrhyw farn ddadleuol ac felly mae ei bresenoldeb yn y Digwyddiad yn annhebygol o gael ei ystyried yn debygol o gythruddo. Nid yw pwnc neu deitl yr araith yn ddadleuol ac nid yw'n debygol o gael ei ystyried yn dramgwyddus mewn unrhyw fodd. Mae presenoldeb yn y Digwyddiad wedi'i gyfyngu i staff a myfyrwyr yn unig.</p>
ISEL	<p>Gallai'r siaradwr feddu ar farn gryf am ei faes, ond nid yw'n cael ei ystyried yn ddadleuol. Mae'n bosibl fod ganddo enw da yn ei faes a bod y cyflwyniad yn annhebygol o fod yn ddadleuol na thramgwyddol. Mae'n annhebygol iawn y bydd y siaradwr neu'r sgwrs yn denu unrhyw sylw negyddol yn y wasg a'r cyfryngau nac yn ei gwneud yn ofynnol cael staff diogeledd yn bresennol. Gallai presenoldeb yn y Digwyddiad fod yn uchel, ond cyfyngir hyn i staff a myfyrwyr yn unig. Os yw'r digwyddiad yn agored i'r cyhoedd, ond bod y siaradwr yn aelod o staff neu'n arbenigwr adnabyddus yn ei faes ac nad yw'n adnabyddus am fod yn ddadleuol neu ddal unrhyw farn ddadleuol. Bydd eu presenoldeb yn y Digwyddiad yn annhebygol o gael ei ystyried yn debygol o gythruddo.</p>
CANOLIG	<p>Gallai'r siaradwr a/neu'r pwnc fod yn addadleuol; fodd bynnag, os yw'r Digwyddiad yn agored i'r cyhoedd a bod posibilrwydd y bydd y presenoldeb yn uchel neu y bydd yn cynnwys unigolion bregus. Gellid ystyried y pwnc fel un dadleuol, a allai beri pryder. Gallai fod yn ofynnol cael staff diogeledd yn bresennol. Mae presenoldeb ar-lein y siaradwr yn codi cwestiynau am eu huniondeb.</p> <p>Llenwi'r Ffurflen Digwyddiad Hysbysadwy: Digwyddiadau Risg Canolig/Uchel</p>
UCHEL	<p>Nid yw'r siaradwr a/neu'r pwnc yn ddadleuol. Gellid cael sylw negyddol yn y wasg a'r cyfryngau a dylai staff diogeledd a staff perthnasol fod yn bresennol. Gwrthodwyd caniatâd i'r siaradwr siarad mewn sefydliad arall yn flaenorol neu mae ei bresenoldeb ar-lein yn peri pryder.</p> <p>Llenwi'r Ffurflen Digwyddiad Hysbysadwy: Digwyddiadau Risg Canolig/Uchel</p>
UCHEL IAWN	<p>Ystyrir bod y siaradwr a/neu'r pwnc yn ddadleuol iawn a bydd yn denu sylw niweidiol gan y wasg a'r cyfryngau. Gwrthodwyd awdurdod i'r siaradwr fynychu Digwyddiad yn y Brifysgol yn flaenorol. Yn ychwanegol, gallai'r Digwyddiad ysgogi protestio gan staff, myfyrwyr, y cyhoedd neu sefydliadau eraill. Disgwylir presenoldeb uchel ac mae'n agored i'r cyhoedd. Mae'n hanfodol cael staff diogeledd a staff perthnasol yn bresennol. Ni ddylid cynnal y digwyddiad oni bai bod mesurau rheoli llym yn eu lle i ddiogelu unigolion ac asedau.</p> <p>Llenwi'r Ffurflen Digwyddiad Hysbysadwy: Digwyddiadau Risg Canolig/Uchel</p>

Prifysgol Wrecsam Glyndŵr Ffurflen Digwyddiad Hysbysadwy: Digwyddiadau Risg Canolig/Uchel

Dylid llenwi'r ffurflen hon ar gyfer **Digwyddiad Hysbysadwy** cynlluniedig gan y Trefnydd o leiaf 21 diwrnod cyn y dyddiad arfaethedig. **Caniateir hysbysebu'r digwyddiad unwaith y bo caniatâd wedi'i roi yn unig.**

Gwnewch yn siwr eich bod yn ateb yr holl gwestiynau isod yn fanwl ac yn cyflwyno'r holl wybodaeth. Gallai unrhyw wybodaeth heb ei llenwi arwain at oedi cyn ystyried y cais.

Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam wedi ymrwmo i egwyddorion rhyddid i lefaru ac yn croesawu grwpiau i ddefnyddio ei chyfleusterau. Mae'r Brifysgol hefyd wedi ymrwmo i ddiogelu lles ei fyfyrwyr a'i staff, a'r Brifysgol ei hun. Er mwyn cyflawni hyn gallai fod yn angenrheidiol o dro i dro rhannu'r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen hon gyda phartneriaid eraill ac asiantaethau eraill a allai gynnwys yr Undeb Myfyrwyr, y Gaplaniaeth, yr Heddlu a sefydliadau Addysg Uwch eraill.

Enw'r digwyddiad – amlinelliad natur a phwnc y digwyddiad					
Enw a chyfeiriad / manylion cyswllt trefnydd y digwyddiad					
Enw unrhyw siaradwr/wyr sy'n ymweld ac unrhyw sefydliadau y byddant yn eu cynrychioli neu y maen nhw'n gysylltiedig gyda nhw tra ar safle'r brifysgol					
Dyddiad y cyfarfod		Amser dechrau		Amser gorffen	
Yr amser y disgwylir i'r siaradwr gyrraedd a gadael		Cyrraedd		Gadael	
Lleoliad y cyfarfod / digwyddiad					
A yw'r cyfarfod neu'r digwyddiad ar agor i'r cyhoedd ai peidio?					
Nifer staff neu fyfyrwyr y brifysgol neu aelodau'r cyhoedd y disgwylir y byddant yn bresennol.					
Camau gan y Trefnydd i reoli mynediad, yn cynnwys rhyddhau tocynnau, diogeledd, er enghraifft.					
Unrhyw fygythiadau tarfu ar y cyfarfod neu'r digwyddiad arfaethedig a gyfathrebwyd yn uniongyrchol neu'n					

anuniongyrchiol gyda'r Trefnydd.
Natur y camau mae'r Trefnydd a'r rhai sy'n gysylltiedig gyda'r digwyddiad yn bwriadu eu cyflwyno wrth drefnu'r cyfarfod neu'r digwyddiad i sicrhau rhyddid i lefaru yn unol â'r gyfraith i unrhyw siaradwr. Gallai camau o'r fath gynnwys trefniadau i sicrhau fod trafodaeth yn cael ei rheoli'n briodol gan Gadeirydd y cyfarfod, penodi stiwardiaid a/neu ddarparu cyfle i fynegi barn wrthwynebol yn yr un cyfarfod.
Natur y camau mae'r Trefnydd a'r rhai sy'n gysylltiedig gyda nhw wrth drefnu'r cyfarfod neu'r digwyddiad yn bwriadu eu cyflwyno i sicrhau fod siaradwyr â barn eithafol a allai ddenu pobl at derfysgaeth yn cael eu herio fel rhan o'r un digwyddiad, yn unol â'r dyletswydd Atal.
Manylion am unrhyw gyhoeddusrwydd arfaethedig fel llyfrynau, anrhegion am ddim, ac a fydd aelodau'r wasg, y teledu neu'r radio yn cael caniatâd i ddod i'r digwyddiad.
Os yw'r materion a godwyd yn ymwneud â'r dyletswydd Atal, beth yw'r raddfa Coch, Melyn, Gwyrdd ar gyfer y siaradwr gwadd a gafwyd gan Uned Eithafiaeth a Gwrth-derfysgaeth Cymru. (Cysylltwch gyda'r Cydlynnydd Atal i gael rhagor o wybodaeth.)

Enw'r Trefnydd			
Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen, os yw'n wahanol			
Llofnod y Trefnydd			Dyddiad
Cymeradwywyd gan y Swyddog Awdurdodi	Do / Naddo	Dyddiad	Llofnod:
Cymeradwywyd gan y Swyddog Awdurdodi gydag amodau	Do / Naddo	Dyddiad	Llofnod:
Os cymeradwywyd gydag amodau, beth yw'r amodau?			
Gwrthodwyd gan y Swyddog Awdurdodi	Do / Naddo	Dyddiad	Llofnod:
Os gwrthodwyd, beth oedd y rhesymau am hynny?			